Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarniadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarniadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003 yn ei gyfarfod ar 9 Gorffennaf 2003.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y gwelliannau a ganlyn i'r Rheoliadau a gafodd eu hargymell:

*Gwelliant 1 (yn enw Glyn Davies) -Yn Rheoliad 4(b), rhodder y geiriau '31 Hydref 2003' yn lle '31 Rhagfyr 2003'.*

Yn dilyn trafodaeth, cynigiwyd y cynnig yn ffurfiol gan Laura Jones a phleidleisiwyd arno fel y ganlyn:

*O blaid* Laura Ann Jones
*Yn erbyn* Lorraine Barrett, Tamsin Dunwoody-Kneafsey, Sue Essex, Ann Jones, Peter Law, Dai Lloyd, Janet Ryder, Kirsty Williams.

Gwrthodwyd y gwelliant gan 8 pleidlais i 1.

*Gwelliant 2 (yn enw Glyn Davies) - Yn Rheoliad 4(c), ar y diwedd dylid ychwanegu'r geiriau, 'ar yr amod na fydd y gofyniad hwn yn gymwys os bydd yr aelod wedi ymddiswyddo o'r awdurdod ar sail iechyd gwael cyn y diwrnod hwnnw'.*

Yn dilyn trafodaeth, cafodd y cynnig ei dynnu'n ôl.

*Gwelliant 3 (yn enw Kirsty Williams) - Ar ddiwedd Rheoliad 4, dylid ychwanegu'r paragraff canlynol - '(f) ei gwneud yn ofynnol bod aelod wedi cyrraedd 65 oed ar 6 Mai 2003'.*

Yn dilyn trafodaeth, cynigiwyd y cynnig yn ffurfiol gan Kirsty Williams a phleidleisiwyd arno fel y ganlyn:

| | |
|---|---|
| *O blaid* | Dai Lloyd, Janet Ryder, Kirsty Williams. |
| *Yn erbyn* | Lorraine Barrett, Tamsin Dunwoody-Kneafsey, Sue Essex, Ann Jones, Laura Ann Jones, Peter Law. |

Gwrthodwyd y gwelliant gan 6 phleidlais i 3.

Mynegodd yr Aelodau bryder:

– na fyddai'r Rheoliadau yn rhwystro aelodau awdurdodau lleol a oedd yn derbyn dyfarniadau am wasanaeth a roddwyd, rhag sefyll mewn etholiadau eraill ar ôl 2004; ac
– ynghylch absenoldeb arfarniad rheoliadol.

Cynigiodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn argymell cymeradwyo'r drafft heb unrhyw welliannau. Pleidleisiodd yr Aelodau fel y ganlyn:

| | |
|---|---|
| *O blaid* | Lorraine Barrett, Tamsin Dunwoody-Kneafsey, Sue Essex, Ann Jones, Peter Law. |
| *Ymatal* | Laura Ann Jones, Dai Lloyd, Janet Ryder, Kirsty Williams. |

Cytunwyd ar y cynnig gan 5 pleidlais i 0 gyda 4 yn ymatal.

**Ann Jones AC**
**Cadeirydd, Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**